

Adolygiad o Gyfyngiadau'r Coronafeirws - 22 Ebrill 2021

ASESIAD EFFAITH CRYNO

Cyflwyniad

Cafodd Asesiad Effaith Cryno ei lunio ym mis Rhagfyr 2020 ar ôl cyflwyno system o lefelau rhybudd yng Nghymru, sydd ar gael [yma](#). Yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ym mis Chwefror 2021, lluniwyd Asesiad Effaith Cryno pellach, sydd ar gael [yma](#). Cafodd yr Asesiad Effaith Cryno diweddaraf ei lunio yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 1 Ebrill, sydd ar gael [yma](#).

Mae'r Cynllun Rheoli Coronafeirws diwygiedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith y mesurau llacio a roddwyd ar waith neu a nodwyd yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 22 Ebrill 2021 ar wahanol ddemograffeg yn y gymdeithas yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr, daeth 'amrywiolyn Caint' i'r amlwg, sef y prif amrywiolyn bellach ac mae'n fwy heintus. Arweiniodd hyn at gyfyngiadau llymach ar lefel rhybudd 4 (e.e. atal y mwyafrif helaeth o ddysgwyr ym myd addysg rhag dysgu wyneb yn wyneb). Ers hynny, mae'r sefyllfa o ran iechyd yng Nghymru wedi gwella sydd wedi golygu bod modd llacio'r cyfyngiadau rywfaint yn adolygiadau mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'r gwelliannau wedi parhau ac wedi cael eu cynnal sy'n golygu bod modd symud yn ofalus ac yn raddol i lefel rhybudd 3 yng Nghymru.

Dyma'r prif fesurau llacio a roddwyd ar waith yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 22 Ebrill 2021:

O 24 Ebrill 2021 ymlaen:

- Caiff y cyfyngiadau ar ymgynnull ag eraill yn yr awyr agored eu llacio er mwyn caniatáu i hyd at 6 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed na gofalwyr) ymgynnull o ddim mwy na 6 aelwyd.

O 26 Ebrill 2021 ymlaen:

- Caiff pobl ymgynnull yn yr awyr agored at ddibenion cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol sy'n cynnwys hyd at 30 o bobl (mae hyn yn golygu bod person dynodedig yn gyfrifol am y gweithgaredd, bod pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd i leihau lledaeniad y coronafeirws wrth ymgymryd â'r gweithgaredd ac nad yw alcohol yn cael ei yfed). Gall gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol gynnwys protestio a phicedu, a all ddigwydd heb gyfyngu ar nifer y bobl sy'n bresennol ar bob lefel rhybudd ac eithrio lefel rhybudd 4.
- Caniateir i fusnesau penodol, gan gynnwys atyniadau i ymwelwyr a phyllau nofio, ailagor eu mangreoedd ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored, gan gynnwys bwyta ac yfed bwyd a diod yn yr awyr agored (o 6.00am ymlaen y diwrnod hwnnw).

- Cyhyd ag i'r weithred ddigwydd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020, caniateir i grwpiau o hyd at 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored i ddathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu fywyd person ymadawedig.
- Caniateir i bobl ymgynnull pan gynhelir gwaith yng nghartrefi pobl, er enghraifft gan grefftwyr, heb fod angen i'r gwaith hwnnw fod yn angenrheidiol neu heb fod angen "dewis arall sy'n rhesymol" (ac eithrio ar lefel rhybudd 4).
- Gellir trefnu digwyddiadau "peilot" yn awr â chaniatâd Gweinidogion Cymru.

O 3 Mai 2021 ymlaen:

- Caiff campfeydd, cyfleusterau ffitrwydd, canolfannau hamdden, sbaon (ond dim ystafelloedd stêm), a phyllau nofio ailagor o dan do.
- Caiff unrhyw aelwyd gytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig ag un aelwyd arall, neu â dwy aelwyd arall os yw un o'r aelwydydd yn aelwyd anghenion llesiant. Caiff aelwyd estynedig gwrdd a chael cysylltiad mewn aelwyd breifat.
- Caniateir i weithgareddau wedi eu trefnu er datblygiad neu lesiant plant gael eu cynnal o dan do.
- Caniateir gweithgareddau wedi'u trefnu o dan do ar gyfer grwpiau o hyd at 15 o bobl (heb gynnwys personau o dan 11 oed) a fyddai'n galluogi, er enghraifft, cynnal dosbarthiadau ymarfer corff mewn grŵp.
- Caiff Canolfannau Cymunedol hefyd agor eu mangreoedd o dan do.

Cefndir deddfwriaethol

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf [yma](#).

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r Adolygiad 21 Diwrnod ar 22 Ebrill 2021.

Adolygu rheoliadau cyfyngiadau

Adolygir y Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Asesiadau o'r Effaith

Mae'r asesiadau canlynol o'r effaith, sy'n ymwneud â'r mesurau llacio a roddwyd ar waith, i'w gweld yng ngweddill y ddogfen hon:

- i. Y rheol 6 o bobl – ymgynnull ag eraill
- ii. Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu
- iii. Atyniadau i ymwelwyr
- iv. Priodasau a digwyddiadau bywyd eraill
- v. Campfeydd a chyfleusterau eraill
- vi. Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu
- vii. Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu i blant

i. Y rheol 6 o bobl – ymgynnull ag eraill

EFFEITHIAU AR LES

Mae effeithiau negyddol sylweddol yn gysylltiedig â chyfyngiadau ar weithgareddau cymdeithasol pobl.

Mewn arolwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar iechyd a lles (1 i 7 Mawrth 2021), gofynnwyd i bobl sut oeddent yn teimlo yn yr wythnos diwethaf a dywedodd 22% eu bod yn teimlo'n unig yn achlysurol ac 16% eu bod yn teimlo'n unig bob amser neu'n aml. Roedd tua 24% o bobl yn teimlo'n ynysig yn achlysurol a dywedodd 25% eu bod yn teimlo fel hyn bob amser neu'n aml. Dros y cyfnod hwn, dywedodd 58% eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u lles.

Defnyddiwyd y data canlynol yn ystod y newid o'r gofyniad i aros gartref i'r gofyniad i aros yn lleol yn 2020. Nid yw'r arolwg a oedd yn cynnwys y data wedi'i ddiweddarw ers mis Tachwedd 2020. Mae'n debygol bod y negeseuon allweddol isod yn berthnasol i'r cyfnod hwn o lacio cyfyngiadau oherwydd bod y sefyllfa ym mis Mehefin 2020 yn gymharol debyg i'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Mewn dadansoddiad cyfunol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r arolwg ar iechyd a lles a gynhaliwyd rhwng 13 Ebrill a 7 Mehefin 2020, nodwyd pryderon penodol y rhai a ddosbarthwyd yn agored i niwed yn glinigol. Dywedodd 25% o unigolion agored i niwed eu bod yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl a'u lles (o'i gymharu â 14% o'r rhai nad oeddent yn agored i niwed).

Mae dadansoddiad blaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru¹ o ddata ei arolygon llesiant wythnosol (dros y cyfnod rhwng 13 Ebrill a 10 Mai) yn nodi canfyddiadau demograffig allweddol ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n fwy tebygol o fod: yn hunanyngysu (45% o bumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth o'i gymharu â 31% o bumed mwyaf cefnog y boblogaeth); yn poeni'n fawr am eu hiechyd meddwl (30% o'i gymharu ag 17%); yn teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); ac yn teimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%).

O ran rhyw, mae menywod yn fwy tebygol o fod: yn hunanyngysu (40% o'i gymharu â 33%); yn poeni'n fawr am eu hiechyd meddwl (25% o'i gymharu ag 20%); yn teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); ac yn teimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â

¹ <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/how-are-you-doing/week-4-report-how-are-we-doing-in-wales/>

18%). Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfnodau o gyfyngiadau symud yn effeithio'n negyddol ar eu cwsgr. Maent yn dweud eu bod yn bwyta byrbrydau yn fwy ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy na dynion yn ystod y cyfyngiadau coronafeirws, ond mae menywod hefyd yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored ac wedi bod yn siarad â ffrindiau a theulu yn fwy nag y byddent fel arfer.

Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y coronafeirws ac unigrwydd² (3 Ebrill – 3 Mai) yn ystyried sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar bobl sy'n teimlo'n unig. Er ei fod bellach wedi dyddio, nododd mai'r rhai a oedd yn dioddef unigrwydd cronig a'r rhai a oedd yn teimlo'n unig yn ystod y cyfyngiadau symud oedd yn poeni fwyaf am effaith COVID-19 ar eu lles dros bryderon eraill. Ar gyfartaledd, roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod dan straen neu'n bryderus; yn treulio gormod o amser ar ben eu hunain; yn teimlo eu bod wedi diflasu; yn gweld effaith ar eu hiechyd meddwl; yn teimlo straen ar eu perthynas bersonol ag eraill ac nad oedd ganddynt neb i siarad â nhw am eu problemau.

Gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd lunio dadansoddiad ym mis Rhagfyr 2020 yn edrych ar effaith y coronafeirws ar iselder mewn oedolion. Nodwyd bod tua un o bob pump oedolyn yn debygol o deimlo rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, bron i ddwbl y cyfraddau a gofnodwyd cyn y pandemig. Dangosodd hefyd mai oedolion iau, menywod, y rhai nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl neu bobl anabl oedd fwyaf tebygol o deimlo iselder.³

Tystiolaeth ychwanegol:

- Mae data arolwg gan Ipsos Mori⁴ yn awgrymu bod 17% o gyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am beidio â gallu mynd allan yn gyffredinol a bod 20% o gyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am eu hiechyd meddwl
- Mae arolwg gan Hafal o 300 o oedolion yng Nghymru⁵ yn awgrymu bod 73% o gyfranogwyr yn dweud bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl
- Mae astudiaeth hydredol gan y Sefydliad Iechyd Meddwl⁶ yn awgrymu bod 24% o oedolion yn y DU wedi teimlo'n unig oherwydd y coronafeirws ac mae teimladau o unigrwydd wedi mwy na dyblu ers y cyfyngiadau symud.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

I'r busnesau hynny sy'n gallu gweithredu, gallai'r newid i ganiatáu i bobl gwrdd â'r un nifer o bobl o fwy o aelwydydd gael effaith gadarnhaol fach gan y bydd mwy o bobl yn gallu defnyddio eu gwasanaethau. Er enghraifft, efallai y bydd effaith economaidd gadarnhaol fach gan y bydd yn caniatáu i ystod ehangach o gwsmeriaid ymweld â gwahanol fusnesau, yn enwedig ym maes lletygarwch. Mae'r busnesau hyn hefyd yn

²<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/coronavirusandlonelinessgreatbritain/3apriltto3may2020>

³<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritain/11december2020#loneliness-of-adults-experiencing-some-form-of-depression-or-anxiety>

⁴ <https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/Covid-19-and-mental-wellbeing>

⁵ <https://www.hafal.org/2020/04/survey-raises-concerns-about-the-provision-of-mental-health-services-in-wales-during-the-covid-19-outbreak/>

⁶ <https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/coronavirus-mental-health-pandemic>

fwy tebygol o ddenu mwy o gwsmeriaid os caiff y cwsmeriaid ymweld â lleoliadau gyda mwy o'u ffrindiau a'u teulu.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Gallai'r cynnydd posibl yn symudiad pobl effeithio ar ansawdd aer wrth i bobl ddechrau teithio ymhellach o fewn Cymru ac i Gymru. Bydd y sefyllfa iechyd bresennol a chapasiti cyfyngedig trafndiaeth gyhoeddus yn arwain at fwy o ddefnydd o gerbydau preifat a llai'n rhannu ceir. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol, ond mae hyn yn annhebygol o fod yn ymarferol ar gyfer teithiau pellach.

Gallai'r cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored hefyd gael effaith gadarnhaol ar agweddau neu safbwyntiau pobl tuag at nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Gallai hyn helpu i atgyfnerthu manteision mesurau i amddiffyn yr amgylchedd wrth inni barhau i lacio'r cyfyngiadau maes o law. Mae perygl hefyd y bydd effeithiau amgylcheddol negyddol yn deillio o orlenwi a gollwng sbwriel. Gwelwyd hyn yn ddiweddar mewn lleoedd yng Nghymru a llawer o ardaloedd twristaidd poblogaidd ledled Lloegr. Gwaethygir hyn gan y newid tuag at ddarparu bwyd a diod tecawê yn sgil cyfyngiadau parhaus ar dafarndai, caffis a bwytai. Gallai negeseuon cyhoeddus ar yr angen i ymddwyn yn gyfrifol i ddiogelu'r amgylchedd ac osgoi lleoedd gorlawn helpu i liniaru hyn ymhellach. Mae'n debygol y bydd hyn yn broblem parhaus gyda mwy o wastraff o fwyd a diod tecawê nes y bydd y cyfyngiadau ar leoliadau bwyd a diod cysylltiedig yn cael eu llacio.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn caniatáu i hyd at chwech o bobl o hyd at uchafswm o chwe aelwyd gyfarfod am unrhyw reswm yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gardd breifat a lleoliadau lletygarwch awyr agored. Bydd hyn wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn liniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Bydd caniatáu i 6 o bobl o hyd at 6 aelwyd wahanol gyfarfod am unrhyw reswm o fudd i'r rhai sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac	Mae amrywiaeth o ddata arolwg yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw'r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig na grwpiau oedran eraill.	Cyhoeddir canllawiau i amlinellu'r cynnydd mewn risg pan fydd mwy o bobl yn cyfarfod yn yr awyr agored (hyd at 6 o bobl o 6 aelwyd), a'r ffordd orau o ddiogelu rhag trosglwyddo'r feirws (cadw pellter

	ynysigrwydd neu allgáu digidol. <i>Negyddol:</i> Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn pryderu am gynnydd mewn risg o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl sy'n cyfarfod yn yr awyr agored.	Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o boeni am eu hiechyd a'r risgiau o ddal COVID-19, ond mae'r rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn wedi cael o leiaf y dos cyntaf o'r brechlyn, felly gallai hynny leddfu rhai o'r pryderon.	cymdeithasol). Canllawiau parhaus i'r rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol er mwyn sicrhau bod risgiau ychwanegol yn cael eu hystyried pan fyddant yn yr awyr agored.
<i>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Bydd pobl anabl nad oedd angen iddynt ddefnyddio darpariaethau cymorth a gofal yn gallu cyfarfod yn gymdeithasol â ffrindiau a theulu ychwanegol yn yr awyr agored.	Roedd ein rheolau eisoes yn caniatáu i bobl anabl (gan gynnwys plant anabl) gael cymorth a gofal gan ffrindiau a theulu. Felly, gallai pobl anabl gyfarfod yn barod.	Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol penodol.
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau wedi amharu ar y gallu i gael at rwydweithiau cymorth, gan felly effeithio'n negyddol ar les.	Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol	Amherthnasol
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gyfarfod ag aelwydydd eraill wedi gwaethgu unigrwydd, ynysigrwydd neu fynediad at rwydweithiau cymorth.	Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol	Amherthnasol
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.		Gweithgarwch cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i wahanol grwpiau a'r angen parhaus i bawb

<i>mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	<i>Negyddol:</i> Mae'n hysbys bod unigolion duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch llacio'r cyfyngiadau hefyd.		barhau i ddilyn canllawiau megis cadw pellter cymdeithasol a hylendid da.
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar rywiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol, a gallai llacio'r cyfyngiadau liniaru'r effeithiau hyn.	Mae arolygon yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu, o boeni'n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo'n bryderus ac o deimlo'n ynysig. Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfnodau o gyfyngiadau symud yn effeithio'n negyddol ar eu cwsgr.	Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol penodol.
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Ar gyfartaledd, roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol o deimlo'n unig (unigrwydd cronig ac unigrwydd 'cyfnod clo') (arolwg barn a ffordd o fyw gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 20 Mai)	Amherthnasol

<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae plant dan 11 oed wedi'u heithrio o'r rheol chwech o bobl pan fydd pobl yn ymgynnull.	Y ddau brif fater i blant (12-18) yn ymwneud â'r cyfyngiadau yw methu treulio amser gyda ffrindiau (72%) a methu ymweld ag aelodau o'r teulu (59%) (Arolwg Coronafeirws a Fi, Ionawr 2021)	Amherthnasol
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gyfarfod ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu unigrwydd, ynysigrwydd neu fynediad at rwydweithiau cymorth.	<i>Arolwg Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru:</i> mae'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf diffreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl.	Amherthnasol

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb	<i>Cadarnhaol:</i> Bydd dileu cyfyngiadau ar gwrdd â phobl eraill yn yr awyr agored yn hwyluso	Sail y cyfyngiadau oedd iechyd y cyhoedd ac mae'r broses asesu ac	Does dim effeithiau negyddol penodol yn

ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)	perthynas deuluol pobl drwy lacio'r cyfyngiadau a osodir gan y llywodraeth. Mae'r cyfyngiadau sy'n weddill ar gwrdd o dan do a nifer yr aelwydydd yn parhau i fod yn gymesur ar sail ieched y cyhoedd.	adolygu yn ceisio codi'r rhain cyn gynted ag nad ydynt yn gymesur mwyach. Mae'r broses hon wedi arwain at y cynnig i godi'r cyfyngiad hwn.	deillio o'r cynnig.
--	--	--	---------------------

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y Confensiwn wrth gynnal yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar weithgareddau awyr agored wrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau

Mae plant o dan 11 oed wedi'u heithrio o'r cyfyngiadau ar gyfarfod yn yr awyr agored. Bydd y cynnig hwn i lacio'r cyfyngiadau yn lleihau'r cyfyngiadau ar blant hyn ac yn caniatáu iddynt gyfarfod â mwy o'u ffrindiau ar yr un pryd. Bydd yr hawliau hyn yn dal i gael eu cyfyngu gan yr angen i reoli lledaeniad y feirws a diogelu ieched y cyhoedd (e.e. parhau i gadw pellter corfforol).

Mae'r arolwg Coronafeirws a Fi, y cymerodd 23,700 o blant Cymru ran ynddo, yn sicrhau bod barn plant yn llywio penderfyniadau polisi (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried). Mae'r arolwg wedi canfod mai'r ddwy reol aros gartref sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut mae pobl ifanc (12-18 oed) yn teimlo yw methu treulio amser gyda ffrindiau (72%) a methu ymweld ag aelodau o'r teulu (59%). I lawer, bu'n bleser treulio mwy o amser gyda'u teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r awyr agored mewn gerddi ac yn ystod ymarfer corff dyddiol.

I rai, mae'r cyfnod hwn hefyd wedi dod â rhyddhad rhag pwysau cymdeithasol ac ieched blaenorol fel anawsterau ieched meddwl neu fwlio.

Y Gymraeg

Ni nodwyd effaith negyddol ar y Gymraeg yn sgil y cynnig hwn. Yn gyffredinol, gallai'r gallu i gyfarfod â phobl o hyd at bum aelwyd arall yn yr awyr agored gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gyfarfod â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a'r tu hwnt. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

ii. Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu

EFFEITHIAU AR LES

Mae nifer o astudiaethau ynghylch Cymru ac yn rhyngwladol yn dangos bod y coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith barhaol ar les pobl⁷. Mae'n gwaethygu teimladau pobl o bryder, unigrwydd ac anhapusrwydd. Mae hyn yn aml yn deillio o'r diffyg cysylltiad â'u cyfoedion.

Mae What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol wella lles pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un lle. Gall y cyfyngiadau ar gyfer unigolion o dan gyfyngiadau Lefel 4 amharu ar fanteision cymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant gyda'i gilydd.

Mae gweithgareddau wedi'u trefnu, ac yn enwedig chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd. Maent hefyd yn helpu i sicrhau cenedl iach ac egnïol, ac yn rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd portffolio trawslywodraethol. Mae tystiolaeth wyddonol dda yn dangos bod ffordd o fyw egnïol yn gallu ein helpu i fyw bywydau iachach a hapusach. Gall ymarfer corff rheolaidd ostwng y risg o nifer o gyflyrau cronig, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes math 2, dementia, rhai mathau o ganser, gordewdra, problemau iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerbydol.

Dangosodd canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ac a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020 fod pobl yn gyffredinol yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ar hyn o bryd.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn darparu enillion helaeth ar fuddsoddiad, o ran y manteision a geir yn sgil ffordd iach ac egnïol o fyw. Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd yn yr awyr agored yn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn lleihau lefelau salwch, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn cyfrannu at Gymru wyrddach drwy deithio llesol.

Mae manteision chwaraeon ac ymarfer corff yn aml-ddimensiwn. Yn 2019, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru Adroddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Roedd y dadansoddiad, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, yn mesur cyfraniad ehangach chwaraeon yng Nghymru. Yn benodol, canfu'r adroddiad y canlynol:

- Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru, mae £2.88 yn cael ei adennill.
- Gwireddwyd gwerth £3,428m o fuddion ar gyfer cymunedau Cymru o ganlyniad i gymryd rhan a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn 2016/17.
- Mae dadansoddiad o'r ffigur cyffredinol yn dangos bod gwerth cymdeithasol cyfalaf cymdeithasol uwch yn £651.47m; gwell addysg yn £91.15m; a lleihau trosedd yn £2.17m. Mae'r gwerth cymdeithasol o ran gwell iechyd yn £295.17m.

⁷ Gweler, er enghraifft: https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

- Mae llesiant goddrychol yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir yng Nghymru (60.6%).
- Tyfodd y diwydiant chwaraeon yng Nghymru 10% yn 2016/17, i £1,142m. Canfuwyd bod y sector chwaraeon yn perfformio'n well na'r diwydiannau fferyllol, teithio, llety a thecstilau yng Nghymru.
- Fe wnaeth yr economi chwaraeon gyfrannu £1,182m yn sgil Gwariant Defnyddwyr ar Chwaraeon a chreu 29,700 o swyddi cysylltiedig â chwaraeon yn ystod yr un flwyddyn.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'r effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch awyr agored, ac yn benodol gweithgarwch corfforol, yn debygol o fod yn isel iawn o ystyried nad yw'r rhan fwyaf o weithgareddau'n gysylltiedig â thechnoleg sy'n cyfrannu at allyriadau. Bydd cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n lleol yn bennaf, heb unrhyw gynnydd disgwylidig sylweddol mewn allyriadau yn sgil teithio i ddefnyddio cyfleusterau.

Yn yr un modd ag ailddechrau gweithgarwch mewn sectorau eraill, gallai llacio cyfyngiadau, mewn theori, roi mwy o reswm i bobl ddefnyddio trafnidiaeth breifat, ond nid yw'n hysbys eto a fydd hyn yn cael effaith arwyddocaol ar yr allyriadau CO2 cyfwerth, nac ar ansawdd aer.

Gallai'r cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored hefyd gael effaith gadarnhaol ar agweddau neu safbwyntiau pobl tuag at nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Gallai hyn helpu i atgyfnerthu manteision mesurau i amddiffyn yr amgylchedd wrth inni barhau i lacio'r cyfyngiadau maes o law.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau cyhoeddus heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae mynediad at weithgareddau wedi'u trefnu yn cael effaith gadarnhaol ar les meddylol a chorfforol.	Mae'r risg o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu gydag oedran, ond gellir	Amherthnasol

	Mae gweithgareddau wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed wedi bod yn cael eu cynnal ers peth amser ac eisoes wedi cael effaith gadarnhaol. Bydd pob oedran yn elwa ar y newid hwn, ond yn enwedig unigolion hŷn sydd wedi ymddeol, nad yw rhai ohonynt ond yn dod i gysylltiad ag eraill drwy weithgareddau fel golff, y celfyddydau ac ati.	lliniaru'r rhain ar y cyfan drwy fod yn yr awyr agored yng ngoleuni'r haul, cadw pellter cymdeithasol, a chynnal hylendid dwylo da.	
<i>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<i>Niwtral:</i> Ar y cyfan, dylai pobl anabl allu manteisio ar yr un cyfleoedd â phobl eraill i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau awyr agored wedi'u trefnu. Fodd bynnag, o ran gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i grwpiau, mae'n bosibl y byddant yn elwa i raddau mwy ar weithgareddau grŵp arbenigol lle mae darparwyr yn gallu ailddechrau gweithgareddau o'r fath yn unol â gofynion diogel o ran COVID.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol sylweddol. Fodd bynnag, mae rhai unigolion yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy	Dim digon o ddata ar gael i lunio asesiad iawn ond ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn	Amherthnasol

	diogel yn hyfforddi mewn grwpiau / gweithgareddau wedi'u trefnu yn hytrach nag ar ben eu hunain.	gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol sylweddol, ond gallai fod yn fwy diogel i fenywod beichiog hyfforddi o dan oruchwyliaeth arbenigol yn hytrach nag ar ben eu hunain.	Dim digon o ddata ar gael i lunio asesiad iawn ond ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a	Amherthnasol

		chorfforol.	
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Potensial i ddynion elwa'n fwy gan fod ganddynt lefelau cyfranogi uwch mewn chwaraeon	Lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel. Bydd hefyd yn gwella ac yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol drwy wneud mwy o weithgarwch.	Amherthnasol
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn	Amherthnasol

		gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Mae gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed eisoes yn cael eu caniatáu.	Mae gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed eisoes yn cael eu caniatáu.	Amherthnasol
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r lefelau net o weithgarwch corfforol wedi newid yn sylweddol yng Nghymru, ond mae effaith wahaniaethol yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol ymysg oedolion a phlant. Mae'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol uwch yn cymryd rhan mewn mwy o ymarfer corff nag yr oeddent cyn yr argyfwng, ac mae'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol tlotach yn cymryd rhan mewn llai. Bydd ailalluogi gweithgarwch yn y maes hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i'r rhai o gefndir	Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020: "There are however significant variations within certain demographic groups. There is a net increase in activity levels amongst those from higher socioeconomic backgrounds (+7 percentage points), however there is a net decrease amongst those from lower socioeconomic backgrounds (-4 percentage points)." "Those from lower socio economic backgrounds appear to be experiencing the greatest reductions (LOW SES: More	Amherthnasol

	economaidd-gymdeithasol is gymryd rhan mewn ymarfer corff.	23% Less 36% = -13 percentage points HIGH SES: More 28% Less 35% = -7 percentage points)	
--	--	---	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed eisoes yn cael eu caniatáu, ond nid yw hyn yn cynnwys gweithgareddau cymysg rhwng oedolion a phlant (ar wahân i hyfforddwy / gwirfoddolwyr ac ati). Byddai caniatáu i bob grŵp oedran gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gyda'i gilydd yn cyfrannu at yr Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawlau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Byddai llacio'r cyfyngiadau presennol ar weithgareddau grŵp yn yr awyr agored yn galluogi Llywodraeth Cymru i fodloni nifer o'i rwymedigaethau o dan ddwy erthygl. Bydd caniatáu i blant o fwy na dwy aelwyd wneud ymarfer corff gyda'i gilydd yn ein galluogi ni i fodloni ein rhwymedigaethau o dan Erthygl 15. Byddai dileu cyfyngiadau ar weithgareddau grŵp yn yr awyr agored yn ein galluogi i fodloni ein rhwymedigaethau o dan Erthygl 31.

Y Gymraeg

Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol o bwys ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal ac i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**, yn pwysleisio pa mor bwysig yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n gallu ei siarad. Mae ail thema Cymraeg 2050, sef **Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg**, yn nodi: *“Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar lefel y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd”*.

iii. Atyniadau i ymwelwyr

EFFEITHIAU AR LES

Mae twristiaeth, gan gynnwys atyniadau, yn cyfrannu at dwf a ffyniant economïau lleol ledled Cymru. Gan amlaf, mae twristiaeth yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Mae cyfran uwch o gyflogaeth ym maes twristiaeth yng Nghymru yn rhan amser sy'n cyfrif am bron i hanner yr holl gyflogaeth ac mae hyn wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wrth gymharu â'r cyfanswm ar gyfer y sectorau blaenoriaeth eraill yng Nghymru, mae cyfran y gyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ar gyfer pobl BAME a'r rhai 16-24 oed, ac mae ychydig yn uwch ar gyfer pobl anabl.

Mae'r sector twristiaeth yn darparu'r llety, y cyfleusterau a'r seilwaith sy'n galluogi pobl ifanc Cymraeg i weithio yn eu cymunedau. Mae llawer o ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth ar gyfer incwm a chyflogaeth.

Rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith integredig ar gyfer twristiaeth. Cafodd ei gwblhau cyn y pandemig, ond mae'n dal i fod yn berthnasol i raddau helaeth.

Mae'r economi ymwelwyr yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles drwy gefnogi, hyrwyddo a gwella mynediad at gyfleoedd hamdden awyr agored a chyfleusterau

twristiaeth ac mae'n cefnogi erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob plentyn a pherson ifanc fod â'r hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Y prif ffactor a ddewiswyd o restr gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 fel yr un a'u denodd i ddod i Gymru oedd i'w helpu i ymlacio a dianc rhag straeniau bywyd. Roedd dros ddau o bob tri'n fodlon iawn ar eu gwyliau i Gymru yn hynny o beth. Ar ben hynny, mae helpu pobl i ddianc rhag prysurdeb bywyd yn un o sbardunau allweddol bodlonrwydd ar Gymru fel lle i ymweld ag ef (ochr yn ochr ag ansawdd amgylchedd naturiol Cymru).⁸

Roedd cyfran uwch o'r rhai a oedd yn dod i Gymru am ymweliad undydd yn 2019 yn dod o gefndiroedd cymdeithasol C2DE nag ymhlith ymwelwyr dros nos (tua thraean o'i gymharu â thua chwarter).

Bydd ailagor atyniadau awyr agored yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at les gydag effeithiau cadarnhaol ar yr economi, cyfoethogi diwylliannol a chymdeithasol ac iechyd.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod Twristiaeth yn un o bedwar sector sylfaen economi Cymru. Mae'n cyfrannu gwerth ychwanegol gros o 6% at economi Cymru. Mae data ar gyfer 2019 yn dangos £6.0 biliwn o wariant ym maes twristiaeth ac yn 2020 roedd 11% o fusnesau yng Nghymru yn y sector twristiaeth. Mae hyn yn uwch mewn rhai ardaloedd gwledig fel Gwynedd (16%), Conwy (15%) ac Ynys Môn, Sir Benfro a Blaenau Gwent (14%).⁹

Mae tua £5bn y flwyddyn yn cael ei wario ar dripiâu hamdden undydd, ac mae tripiâu i atyniadau i ymwelwyr yn tueddu i fod yn gyfrifol am tua 3-4% o wariant (tua £220m y flwyddyn). Mae ein data'n rhoi atyniadau mewn categorïau – rhai am ddim a rhai sy'n costio – fodd bynnag, gallwn amcangyfrif yr atyniadau o dan do o Arolwg Atyniadau Cymru 2018, sy'n nodi bod 38% o'r holl atyniadau yn yr awyr agored.

Roedd y bobl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad '10 cwestiwn' ar gyfer Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn teimlo bod effaith economaidd twristiaeth yn gwneud rhai cymunedau gwledig yn hyfyw, drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac yn galluogi busnesau eraill, nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth, i ychwanegu at eu hincwm.

Mae'n anos darogan gwasgariad y gwariant ar atyniadau drwy gydol y flwyddyn na'r gwariant ar lety, ac mae data misol yn ystod blyneddau diweddar wedi amrywio, ond mae cyfnod brig yn ymddangos yn gyson rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae busnesau atyniadau awyr agored a fethodd gyfran sylweddol o'u hincwm y llynedd yn cael cyfle i sicrhau mwy o incwm eleni.

⁸ [Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 - adroddiad ar ymwelwyr sy'n aros o'r DU](#)

⁹ Ffynhonnell y Data: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau

Atyniadau i Ymwelwyr: y data diweddaraf am ddefnyddwyr / pellter a deithiwyd i atyniadau:

Mae pobl yn y DU yn bwriadu mynd ar ddiwrnod allan i atyniad i ymwelwyr o fewn y tri mis nesaf, ac mae dros hanner yn bwriadu gwneud hynny o fewn y chwe mis nesaf. Bydd atyniadau awyr agored yn bennaf yn denu mwy o ymwelwyr nag arfer (11% net) dros y misoedd nesaf, er bod atyniadau o dan do neu atyniadau o dan do yn bennaf yn debygol o ddenu 15% net yn llai o ymwelwyr nag arfer. Mae pobl yn dal i deimlo'n llai cyfforddus wrth ymweld ag atyniad o dan do, ar 2.2 allan o 4.

Yn ôl Association of Leading Visitor Attractions, mae tua chwarter o'r farchnad ymweld ag atyniadau yn dweud y byddant yn ymweld â pharc thema, gyda niferoedd tebyg yn bwriadu ymweld â thai neu safleoedd hanesyddol, swau ac atyniadau fferm. Dywed hyd at draean eu bod yn bwriadu ymweld â gerddi cyn gynted ag y gallant, ac mae 10% yn hawlio eu bod eisoes wedi ymweld â pharc gwledig neu warchodfa natur. Mae'n ymddangos bod ychydig mwy o hyder mewn ymweld ag atyniadau awyr agored ond ers diwedd mis Ionawr bu gostyngiad yng nghyfran y farchnad a fydd yn teimlo'n fwy pryderus nag arfer am ddefnyddio cyfleusterau atyniad o dan do ar ôl ailagor, gan gynnwys toiledau a chaffis dan do.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'n debygol y bydd yr effaith amgylcheddol yn niwtral. Mae'r cynnig i lacio cyfyngiadau yn debygol o arwain at fwy o deithiau mewn car. Byddai'r cynnydd mewn gwyliau yng Nghymru yn cael ei wrthbwyso gan y gostyngiad tebygol yn nifer y teithiau mewn awyren a thrwy hynny leihau allyriadau.

Does dim effeithiau amlwg ar fioamrywiaeth nac addasu.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i atyniadau awyr agored heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Cadarnhaol: Bydd ailagor rhagor o safleoedd, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac atyniadau, yn fuddiol i bob grŵp oedran. Mae Cymru'n parhau i fod yn gyrchfan boblogaidd i deithwyr canol oed/hŷn a phobl anabl. Mae proffil oedran y bobl sy'n ymweld â Chymru ar eu gwyliau yn debyg i Brydain ar y cyfan, gan wyro tuag at ymwelwyr canol oed a hŷn. Cyfran gymharol isel o'r tripiâu gwyliau domestig dros nos ym Mhrydain yn gyffredinol sy'n cael eu gwneud gan bobl iau, yn enwedig pobl o dan 25 oed; ond mae gan Gymru gyfran fwy o dripiâu gwyliau ym Mhrydain sy'n cynnwys plant, gan	Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ynghylch effeithiau economaidd a lles yn tynnu sylw at gynrychiolaeth dybiedig y grŵp hwn fel ymwelwyr ac yn y gweithlu. Mae tystiolaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod gwirfoddoli yn lleihau'r tebygolrwydd o deimlo'n unig (roedd 11% o wirfoddolwyr yn unig, o gymharu â 19% o bobl nad oeddent yn wirfoddolwyr).	Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i baratodau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad at leoliad / gwasanaethau'n ddiogel. Maent hefyd yn gofyn iddynt ystyried oedran a phobl agored i niwed yn glinigol yn eu gweithlu wrth feddwl am risg sy'n gysylltiedig â COVID-19. Ailadroddir hyn yn y canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch a'r rhestr wirio gysylltiedig.

gyrraedd 13% yn 2018, o'i gymharu â 10% o gyfran o wyliau heb blant. Mae 41% o'r tripiâu gwyliau dros nos i Gymru yn cynnwys plant. Roedd 2.6m o dripiâu yn 2018 a bydd llawer o'r rhain yn wyliau gan deuluoedd sy'n byw yng Nghymru.

Mae'r canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch yn nodi y bydd cyngor ar gyfer aelodau hŷn a rhai sy'n agored i niwed yn glinigol i [barhau i warchod eu hunain](#) yn effeithio hefyd ar sut y gall sefydliadau fynd ati i ailagor.

O ran cyflogeion, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ymysg pobl 16-24 oed. Felly gallai'r mesurau arwain

	at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ifanc pe baent yn helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rhai sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). Mae'n bosibl y bydd cyrchfannau a lleoliadau'n gallu cynnig profiad gwaith gwerthfawr i bobl ifanc hefyd.		
<i>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae 24% o'r holl dripiâu dros nos yng Nghymru yn cynnwys rhywun ag anabledd neu nam arall, sydd ychydig yn uwch na thripiâu ym Mhrydain yn gyffredinol (20%).	Wrth i ragor o safleoedd ailagor, o ganolfannau cymunedol i atyniadau, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mynediad uwch at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.	Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", a'r canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael mynediad at leoliadau neu wasanaethau. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer busnesau twristiaeth. e.e. rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i weithdrefnau archebu neu sut y bydd y lleoliad yn cynorthwyo pobl anabl fel y gallant barhau i gael mynediad i'r lleoliad yn ddiogel. e.e. rhoi gwybodaeth ychwanegol i

			ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg cyn iddynt ymweld, o ran newid y trefniadau mynediad i adeiladau neu safleoedd a llwybrau newydd a mwy cymhleth i ymwelwyr, ac yn gyffredinol drwy wneud yr holl wybodaeth i ymwelwyr yn hygyrch. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt o dan anfantais.
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Annhebygol o gael effaith. Cynhaliwyd chwiliad byr am dystiolaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd na data procsi perthnasol ar gael ar brofiadau teithio ac ymddygiad y grŵp hwn.	Nid oes digon o ddata i lywio asesiad trwyadl. Wrth i ragor o safleoedd agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mynediad uwch at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.	
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel atyniadau i dwristiaid, yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl.	Wrth i ragor o adeiladau agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mynediad uwch at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.	Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad at leoliad / gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch yn nodi bod asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol i fenywod beichiog, waeth beth fo maint y busnes a bod gan gyflogwyr ddyletswydd statudol tuag at famau newydd neu ddarpar famau.

<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	Niwtral fel ymwelwyr. <i>Cadarnhaol:</i> O ran cyflogeion, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth gryn dipyn yn uwch ymysg pobl o gefndir BAME ac felly, wrth ailagor rhagor o fusnesau, dylai hyn helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rhai sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).	Cafodd data o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) ac Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr (GBDVS) 2016–18 eu cyfuno i ddeall unrhyw wahaniaethau rhwng cymhellion ymwelwyr o gefndiroedd gwyn ac ymwelwyr o gefndiroedd BAME o fannau eraill ym Mhrydain Fawr. Ar gyfer ymwelwyr dros nos, roedd y prif gymhellion dros deithio'n dilyn patrwm tebyg, gydag ymwelwyr gwyn ac ymwelwyr BAME yn teithio yn bennaf at ddibenion gwyliau/mwynhad/hamdden (63% o'i gymharu â 54%), wedi eu dilyn gan ymweld â theulu a pherthnasau (26% o'i gymharu â 28%) ac wedi teithio at ddibenion busnes (8% o'i gymharu â 12%). Y rheswm mwyaf cyffredin am ymweliadau dydd ar gyfer ymwelwyr gwyn ac ymwelwyr BAME oedd ymweld â ffrindiau a theulu (23% o'i gymharu ag 19%).	Rhaid cadw at negeseuon cyson a chlir i atgoffa pobl BAME o'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad at leoliad / gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r canllawiau hefyd yn cynghori defnyddio neges seml, glir a hygyrch i egluro'r canllawiau, gan ystyried y grwpiau y mae'n bosibl nad yw Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r canllawiau ar gyfer y sector twristiaeth yn nodi, er mwyn trin cyflogeion yn deg, y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiadau risg ystyried yn benodol a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith yn fwy agored i COVID-19, a rhoi camau ar waith i'w diogelu.
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Annhebygol o gael effaith.	Nid yw data ar grefydd ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid ar gael drwy arolygon swyddogol. Cynhaliwyd chwiliad byr am dystiolaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd na data procsi perthnasol ar gael ar brofiadau teithio ac ymddygiad y grŵp hwn.	Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad at leoliad / gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r canllawiau ar gyfer y sector twristiaeth yn nodi, er mwyn trin

			cyflogeion yn deg, y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. Maent hefyd yn nodi bod y camau y bydd fel arfer angen eu cymryd yn cynnwys sicrhau nad ydych yn cael effaith negyddol na ellir ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft y rhai ag ymrwymïadau crefyddol.
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Gan amlaf, mae twristiaeth yn cyflogi rhagor o fenywod na dynion. Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor, dylent helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rhai sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).	Bydd cyfleoedd i ddychwelyd i weithio yn helpu i leihau'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud, gan gynnwys pryderon ariannol.	Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad at leoliad / gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r canllawiau ar gyfer y sector twristiaeth yn nodi, er mwyn trin cyflogeion yn deg, y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. Maent hefyd yn nodi bod y camau y bydd fel arfer angen eu cymryd yn cynnwys sicrhau nad ydych yn cael effaith negyddol na ellir ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft y rhai â chyfrifoldebau gofalu.
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Mae gwybodaeth brocsi ar gael drwy ymchwil i ymwelwyr LHDT	O ran twristiaeth, mewn arolwg gan 'VisitScotland' o'r canfyddiadau o gyrchfannau ystyriol o LHDT o gwmpas y byd,	Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried hawliau'r

	â'r Alban¹⁰. Tybir y byddai'r canfyddiadau hyn hefyd yn berthnasol i Gymru. Mae'r dylanwadau ar benderfyniad i fynd ar daith i'r Alban yn debyg i ymwelwyr LHDT ag ydynt i ymwelwyr eraill. Fodd bynnag, rhaid iddynt hefyd feddwl am amrywiaeth o ffactorau eraill nad ydynt o reidrwydd bob amser yn bwysig i deithwyr nad ydynt yn rhai LHDT. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys faint o groeso y byddent yn ei gael mewn rhai cyrchfannau, sut y byddent yn cael eu trin yn eu llety a hyd yn oed pa mor ddiogel y byddent wrth gerdded i lawr y stryd; mae pob un yn ystyriaethau sylfaenol sy'n dylanwadu ar ddewisiadau cyrchfannau ar	roedd y DU yn 12fed allan o 15 cyrchfan a gafodd eu crybwyll yn ddigymell.	rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad at leoliad / gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r canllawiau ar gyfer y sector twristiaeth yn nodi, er mwyn trin cyflogeion yn deg, y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig.
--	--	---	---

¹⁰ Visit Scotland (2014). Ymchwil LHDT. <https://www.visitscotland.org/binaries/content/assets/dot-org/pdf/research-papers/lgbt-topic-paper-july-2014.pdf>

	gyfer ymwelwyr LHDT. O ran canfyddiadau o gyrchfannau ystyriol o LHDT o gwmpas y byd, roedd y DU yn 12fed allan o 15 cyrchfan a gafodd eu crybwyll yn ddigymell. Er bod y canfyddiad o gael croeso gweddol dda yn yr Alban yn weddol uchel ymhlith ymwelwyr LHDT sy'n dod o'r Alban (82%), mae lle i wella o hyd mewn perthynas ag unigolion LHDT o weddill y DU (67%) a thramor (68%).		
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol	Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau. Dylai hyn hybu lles.	Mae'r canllawiau ar gyfer y sector twristiaeth yn nodi, er mwyn trin cyflogeion yn deg, y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig.
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau	Mae'r arolwg ‘Coronafeirws a Fi’ o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd	Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru

	ac i ryngweithio'n gymdeithasol.	Unedig ar Hawliau'r Plentyn).	
Aelwydydd incwm isel	Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, hoffai 21% gael gwyliau yn bell o'u cartref (am o leiaf wythnos heb aros â pherthnasau) ond nid ydynt yn gallu fforddio hynny. Mae hyn yn debygol o fod yn waeth oherwydd cyfyngiadau ariannol ar yr adeg hon. Gall atyniadau ac ymweliadau dydd gynnig dewis arall i rai.		Bydd atyniadau lleol a/neu atyniadau di-dâl yn fwy hygyrch i aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gallu teithio'n bell o'u cartref o bosibl. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ailagor cyrchfannau a lleoliadau diwylliannol a threftadaeth yn cynghori gwneud darpariaeth i ganiatáu archebion gan bobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrdd.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae agor atyniadau o dan do yn cefnogi'r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae atyniadau o dan do yn rhan o'r profiadau a'r cyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

Y Gymraeg

Mae 127,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 9% o'r gweithlu. Mae'r economi'n rhan annatod o greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd Cymraeg yn ddibynol iawn ar dwristiaeth ar gyfer incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg; er enghraifft, mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg yn cael budd o'r ffaith bod atyniadau i dwristiaid yn gallu parhau i weithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol", yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried sut y byddant yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg wrth newid eu gweithgareddau / gwasanaethau.

iv. Lletygarwch awyr agored

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Arwyddocâd economaidd y sector

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrannodd y sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod* £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru yn 2018, sy'n gyfwerth â 2% o'r cyfanswm gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES), amcangyfrifwyd bod 85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch – Tafarndai, Caffis a Bwytai' yng Nghymru, sy'n 6.7% o gyfanswm cyflogaeth.¹¹

Mae'r sector lletygarwch hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaenol. Mae cwmnïau lleol yn aml yn prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae cau'r sector lletygarwch yn cael sgil effaith ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn gyffredinol yn mynd i'r sector lletygarwch. Er y bu cynnydd o 15% yn y defnydd domestig, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru gamu i'r adwy i gefnogi ffermwyr o ganlyniad. Mae dadansoddiad gan Brifysgol Caerdydd (2010) a Llywodraeth yr Alban (2019)¹² yn helpu i roi amcangyfrif dangosol ar gyfer cyflogaeth anuniongyrchol (cadwyn gyflenwi) o rhwng 6,700 ac 8,100 o bobl ychwanegol. Gellir priodoli ystod debyg (6,500 i 7,600) o gyflogaeth i effeithiau a gymhellwyd (gwario), er y dylid trin y niferoedd hyn yn ofalus. Felly, gallai cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a chyflogaeth a gymhellwyd yn y sector gynrychioli tua 87,500 o swyddi.

Yn 2019, roedd 22% o deithiau hamdden domestig o 3+ awr yn cynnwys mynd allan am bryd o fwyd, a dyma oedd y prif reswm dros y daith ar gyfer 9% o'r holl ymweliadau (13.5 miliwn o deithiau hamdden, gyda gwariant cysylltiedig o £500m). Roedd 19% yn cynnwys mynd ar noson allan i dafarn neu glwb, a dyma oedd y prif reswm dros y daith ar gyfer 10% o'r holl ymweliadau (15.2 miliwn o deithiau hamdden, gyda gwariant cysylltiedig o £449m). Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys pob rhan o'r daith hamdden, ac nid oes data ar gael ar gyfer gwariant ar fwyta ac yfed yn benodol. Ar gyfer teithiau dros nos i Gymru, gwariwyd £428m yn

¹¹ Cod SIC2007 2 ddigid wedi'i ddiffinio (56) Gweithgareddau gwasanaethau Bwyd a Diod, hy bwytai, caffis, bwyd tecawê, tafarndai / bariau, clybiau, ac arlwyio ar gyfer digwyddiadau

¹² Gan ddefnyddio lluosydd cyflogaeth Math I /II 2007 o 1.11 ac 1.20, yn y drefn honno, ar gyfer y sector 'gwestai, bariau a bwytai' yng Nghymru ([yma](#)) a lluosydd cyflogaeth Math I/II 2016 o 1.09 ac 1.20, yn y drefn honno, ar gyfer y sector 'gwasanaethau bwyd a diod' yn yr Alban ([yma](#)).

uniongyrchol ar fwyta ac yfed allan yn ystod 2019, 28% o gyfanswm cost y daith, ar gyfartaledd.¹³

Mae bwyd a diod yn greiddiol i brofiad twristiaid ac mae ymchwil ddiweddar i ddefnyddwyr yn dangos bod diffyg cyfleusterau o ran bwyd a diod yn rhwystr allweddol i deithio a diwrnodau allan eleni. Canfu Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019¹⁴ fod 83% o ymwelwyr sy'n aros o'r DU a 59% o ymwelwyr dydd o'r DU wedi bwyta allan yn ystod eu hymweliad â Chymru. Canfu Traciwr Defnyddwyr BDRC (22-26 Mawrth)¹⁵ mai'r prif ffactorau ymhlith y rhai nad oeddent yn hyderus iawn ynghylch teithio y gwanwyn hwn oedd cyfyngiadau'r llywodraeth ar deithio a llai o gyfleoedd i fwyta/yfed allan (soniodd 40% am hyn). Canfu Traciwr Adfer Atyniadau ALVA y llynedd (Ton 3, 9-12 Mehefin 2020)¹⁶ na fyddai 21% o ddefnyddwyr yn ymweld ag atyniad pe bai'r caffi neu'r siop fwyd/diod ar gau, yn ail yn unig i gyfleusterau toiled o ran pwysigrwydd.

Effeithiau economaidd cyffredinol

Gostyngodd Cynnyrch Domestig Gros blyneddol y DU 9.9% yn 2020. O ran gweithgareddau Gwasanaethau Llety a Bwyd, bu gostyngiad o 44% mewn allbwn yn ystod 2020, ac o ran y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden, bu gostyngiad o 26%. Er hynny, ailgododd gweithgareddau bwyd a diod yn gryf yn ystod mis Awst 2020.

Mae arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau COVID-19 ar fusnesau (BICS) yn rhoi cipolwg ar effeithiau'r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector Gweithgareddau Gwasanaethau Llety a Bwyd yn gyffredinol.¹⁷ Ynghyd â'r Celfyddydau, Adloniant a Hamdden mae'n un o'r rhannau o economi'r DU y mae'r pandemig iechyd a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi effeithio fwyaf arni; ar ddiwedd mis Mawrth, roedd llai na hanner (46%) o fusnesau gwasanaethau llety a bwyd y DU yn masnachu, sy'n is na bron i bob diwydiant arall. Yn gyffredinol, roedd tri chwarter busnesau'r DU yn gweithredu¹⁸. Y ddau sector hyn sydd hefyd wedi nodi'r gostyngiadau mwyaf mewn trosiant busnes, gyda dau o bob tri o'r busnesau yn y ddau sector yn nodi bod eu trosiant wedi gostwng.

Oherwydd natur tafarndai, caffis a bwytai, mae'n bosibl y bydd llawer o'r galw (a'r refeniw cysylltiedig) sydd wedi'i golli ers i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith wedi cael ei golli heb fodd ei adfer ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Mae'r busnes a gollwyd yn y sector hwn yn annhebygol o gynyddu a chael ei ryddhau (galw wedi cronni) mewn ffyrdd y mae modd eu rhagweld ar gyfer sectorau eraill fel rhai sydd, er enghraifft, yn gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau.

¹³ Ffynhonnell: GBTS, 2019. Dadansoddiad mewnol

¹⁴ [Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019](#)

¹⁵ COVID-19 – Traciwr Wythnosol Defnyddwyr ([Wythnos 5, 15-19 Mehefin](#))

¹⁶ Traciwr Adfer Atyniadau ALVA [Ton 3: 9 Mehefin](#)

¹⁷ Ar gyfer y cyfnod rhwng 18 Mai a 31 Mai.

¹⁸ Nododd 46% o fusnesau'r sector Gwasanaethau Llety a Bwyd yn y DU eu bod yn parhau i fasnachu, o'i gymharu â 63% yn y sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden.

Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r Cynllun Cadw Swyddi yn sicrhau, os bydd gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgrisiwn). Bydd y Cynllun yn dod i ben yn llawn ym mis Medi. Yn arolwg BICS ar gyfer 8 i 21 Mawrth, roedd 19% o weithwyr y DU ar ffyrlo, ond gwasanaethau llety a gwasanaethau a'r celfyddydau, adloniant a hamdden oedd y ddau ddiwydiant yr effeithiwyd arnynt waethaf, gan adrodd bod 51% a 58% o'u gweithwyr ar ffyrlo llawn neu rannol yn y drefn honno.

I lawer o bobl yng Nghymru, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm eu haelwyd. Mae tystiolaeth ychwanegol o arolwg yn awgrymu bod 20% o bobl mewn sefyllfa ariannol waeth o ganlyniad i'r coronafeirws, tra mae 16% yn dweud eu bod mewn sefyllfa well.¹⁹ Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig y rhai lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.²⁰ Mae incwm y rhai sydd ag incwm is wedi bod yn fwy tebygol o ostwng, ac mae gweithwyr ar gyflogau is wedi bod yn fwy tebygol na'r rhai ar gyflog uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu o fod wedi colli eu swyddi.²¹

Y gweithlu

Mae gweithlu'r ddwy ran hyn o'r economi yn tueddu i gynnwys lefel anghymesur o bobl sydd wedi cael addysg is, pobl iau a phobl BAME, a'u bod yn cael cyflogau sylweddol is na chyfartaledd Cymru (canolrif) – mae llawer o'r rhain yn grwpiau sydd wedi profi'r effeithiau mwyaf niweidiol ar eu hiechyd, eu henillion, a'u potensial cyflogaeth o ganlyniad i ddirywiad economaidd.

Y gadwyn gyflenwi / gwerth lletygarwch i economi Cymru

Yn 2018, cyfrannodd y sector gwasanaethau bwyd a diod £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru, tra oedd gweithgareddau gwasanaethau personol eraill (a fyddai'n cynnwys llawer o fusnesau cysylltiad agos o fewn maes gofal personol) yn werth £800 miliwn. Roedd hyn gyfwerth â 2% ac 1.2%, yn y drefn honno, o'r cyfanswm gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Er nad oes ystadegau ar gael ar lif nwyddau ym marchnad fewnol y DU, bydd manwerthwyr Cymru yn aml yn prynu cynnyrch a nwyddau a weithgynhyrchir yn uniongyrchol gan gwmnïau o Gymru. Felly, mae'n debygol y bydd manteision i'r gadwyn gyflenwi yn

¹⁹ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws: Wythnos 48: 1 a 7 Mawrth 2021.

²⁰ Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

²¹ Resolution Foundation: [Incomes, savings and spending through the coronavirus crisis](#) Tachwedd 2020

sgil caniatáu lefelau uwch o weithgarwch economaidd yn y sector – fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yr effaith honno.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae tafarndai, caffis a bwytai i gyd yn safleoedd busnes y mae gweithwyr a defnyddwyr yn gorfod teithio iddynt er mwyn iddynt weithredu. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a'r tu hwnt, mae'n debygol iawn y bydd agor y sector yn ehangu'r rhesymau i'r cyhoedd deithio mewn cerbydau preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o gymharu â'r misoedd diwethaf, pan gredir i ansawdd yr aer fod wedi gwella.

RHYNGDDIBYNIAETHAU GALLUOGI

Gofal plant

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod gan 11,400 o oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytai blant 16 mlwydd oed neu iau. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ddadansoddiad sy'n ein galluogi i ddeall faint o'r rhain a allai fod angen trefniadau gofal plant ffurfiol er mwyn dychwelyd i'r gwaith.

Trafnidiaeth

Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15 yn cofnodi dull teithio pobl i fynd i dafarndai, caffis ac ati. Dangosodd (heb ofyn i bobl ddewis un yn unig) fod 47% o bobl yn defnyddio car fel dull arferol o deithio i dafarndai, caffis a bwytai, bod 43% yn cerdded, ac 8% yn defnyddio bysiau, a 9% yn defnyddio tacsis. Mae hyn yn codi mater sydd efallai angen ei ystyried, sef y risg bosibl o gynnydd mewn troseddau yfed a gyrru pe bai pobl yn ymatal rhag defnyddio tacsis neu os na chaniateir iddynt eu defnyddio (oherwydd rheolau cadw pellter) ar ôl yfed alcohol. Mae potensial hefyd ar gyfer mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrafferthion yn ymwneud â threfn gyhoeddus yn sgil yfed gormod o alcohol, gan achosi problemau i staff trenau/bysiau a gyrrwyr tacsis/cerbydau hurio preifat.

Yn sgil ailagor gwasanaethau awyr agored yn unig i ddechrau, yr arwyddion cynnar yw y bydd tua un o bob tri busnes lletygarwch yn ailagor, felly mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd effaith sylweddol ar dtrafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y materion hyn ymhellach drwy'r gweithgor a sefydlwyd i ddatblygu'r trefniadau manwl ar gyfer ailagor cyn dychwelyd i wasanaeth llawn (hy, o dan do ac yn yr awyr agored).

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar

deithio a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i leoedd awyr agored heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

<i>Grŵp neu nodwedd warchodedig</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</i>
<i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd. <i>Negyddol:</i> Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu gydag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli).	Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg drosglwyddo ar gyfer pob grŵp; cwsmeriaid a staff. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.
<i>Anabledd (meddyliwch</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'r boblogaeth anabl yng	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg	Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol

<i>am wahanol fathau o anabledd)</i>	Nghymru yn cynrychioli cyfran ychydig uwch o'r gweithwyr yn y sector hwn nag ydynt yn y gweithlu'n gyffredinol, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws.	Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cynrychiolaeth uwch o bobl anabl yn y sector hwn yng Nghymru – mae 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach).	o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Integredig. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol.
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	<i>Negyddol:</i> Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at fannau cyhoeddus yn cael eu defnyddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau.	Amherthnasol	Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Integredig.
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'r boblogaeth BAME yn fwy tebygol o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na'r	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 12% o	Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn

<i>mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws. <i>Negyddol:</i> Mae'n bosibl bod pobl BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal COVID-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.	weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli).	gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg drosglwyddo ar gyfer pob grŵp; cwsmeriaid a staff. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae cyfran y gweithwyr benywaidd yn y sector ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol.	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru.	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol

<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	<i>Negyddol:</i> Gallai oedolion sy'n gweithio mewn tafarndai, caffis a bwytai fod â chyfrifoldebau gofal plant. Mae'n bosibl y bu amhariad ar y mathau traddodiadol o ofal plant yn ystod y cyfyngiadau symud cyfredol.	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytai blant o dan 16 oed.	Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant, gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle mae efallai angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio.
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi.	Mae data dros dro o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru. Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 80% o weithwyr Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod yn cael cyflog	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.

		gros is yr awr na chanolrif Cymru.	
--	--	------------------------------------	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)	<i>Cadarnhaol:</i> bydd caniatáu i dafarndai, caffis a bwytai ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith.	Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo.	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae agor lletygarwch awyr agored yn cefnogi'r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae lletygarwch awyr agored yn rhan o'r profiadau a'r cyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

Y Gymraeg

Mae 127,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 9% o'r gweithlu. Mae'r economi'n rhan annatod o greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r

cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd Cymraeg yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth ar gyfer incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg; er enghraifft, mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg yn cael budd o'r ffaith bod busnesau lletygarwch yn gallu parhau i weithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

v. Derbyniadau priodas awyr agored a digwyddiadau bywyd eraill

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Arwyddocâd economaidd y sector

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrannodd y sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod*, sy'n ffurfio rhan o'r gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer priodasau a digwyddiadau tebyg, £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru yn 2018, sy'n gyfwerth â 2% o'r cyfanswm gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES), amcangyfrifwyd bod 85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch – Tafarndai, Caffis a Bwytaï' yng Nghymru, sy'n 6.7% o gyfanswm cyflogaeth.²²

Mae'r sector lletygarwch ehangach hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaenol. Mae cwmnïau lleol yn y diwydiant priodasau a digwyddiadau yn aml yn prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae cau'r sector lletygarwch yn cael sgil effaith ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn gyffredinol yn mynd i'r sector lletygarwch. Er y bu cynnydd o 15% yn y defnydd domestig, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru gamu i'r adwy i gefnogi ffermwyr o ganlyniad. Mae dadansoddiad gan Brifysgol Caerdydd (2010) a Llywodraeth yr Alban (2019)²³ yn helpu i roi amcangyfrif dangosol ar gyfer cyflogaeth anuniongyrchol (cadwyn gyflenwi) o rhwng 6,700 ac 8,100 o bobl ychwanegol. Gellir priodoli ystod debyg (6,500 i 7,600) o gyflogaeth i effeithiau a gymhellwyd (gwario), er y dylid trin y niferoedd hyn yn ofalus. Felly, gallai cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a chyflogaeth a gymhellwyd yn y sector gynrychioli tua 87,500 o swyddi.

Maint y sector a'i gadwyn gyflenwi yng Nghymru

Mae'r sector yn cynnwys cymysgedd eang o leoliadau sy'n cynnwys lleoliadau priodas cefn gwlad, lleoliadau ysgubor, plastai, cestyll (rhai'n eiddo i CADW), gwestai, swyddfeydd cofrestru, addoldai, atyniadau ac amgueddfeydd, cyrsiau golff,

²² Cod SIC2007 2 ddigid wedi'i ddiffinio (56) Gweithgareddau gwasanaethau bwytaï a bwyd symudol a 563 o weithgareddau gweini diod.

²³ Gan ddefnyddio lluosydd cyflogaeth Math I /II 2007 o 1.11 ac 1.20, yn y drefn honno, ar gyfer y sector 'gwestai, bariau a bwytaï' yng Nghymru ([yma](#)) a lluosydd cyflogaeth Math I/II 2016 o 1.09 ac 1.20, yn y drefn honno, ar gyfer y sector 'gwasanaethau bwyd a diod' yn yr Alban ([yma](#)).

lleoliadau digwyddiadau, lleoliadau chwaraeon, bwytaï a thafarndai, lleoliadau mewn dinasoedd megis clybiau cymdeithasol, lleoliadau awyr agored a pharciau.

Mewn ymgynghoriad â'r sector, ein hamcangyfrif gorau yw bod tua 600 o fusnesau cofrestredig yng Nghymru sydd â thrwydded ddilys i gynnal priodasau. Y tu hwnt i hynny, mae'r gadwyn gyflenwi sy'n cefnogi'r sector priodasau yn enfawr, gan gynnwys Cofrestryddion, Lleoliadau, Arlwyo, Cacennau, Blodau, Ffotograffau a Fideos, Manwerthu, Deunydd Ysgrifennu, Bandiau/DJs, Ceir/Trafnidiaeth, Pebyll, Propiau a phethau i'w rhentu, Gwallt a Cholur, Teithio a Thwristiaeth, Staff Cymorth, Sioeau Masnach Priodasau, Llwyfannau Cyfryngau. Rhagwelir y bydd o leiaf 10 busnes yn cyflenwi ac yn cefnogi pob priodas unigol mewn lleoliad.

Mae priodasau a digwyddiadau personol arbennig eraill yn ysgogi twristiaeth wrth i westeion deithio i'w mynychu. Yn 2019, bu 2.8 miliwn o ymweliadau dydd a 96,000 o deithiau dros nos yng Nghymru ar gyfer digwyddiad personol arbennig (e.e. priodas, bedydd, graddio). Gwariodd yr ymwelwyr hynny gyfanswm o £430m, gan gynnwys llety a'r holl gostau eraill.²⁴

Ffeithiau allweddol²⁵:

Gwerth y sector yng Nghymru

Cyfanswm gwariant cyfartalog priodasau yng Nghymru:	£17,236
Gwariant cyfartalog ar leoliadau yng Nghymru:	£5,283
Nifer y priodasau a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2019:	13,197
Nifer y lleoliadau priodas trwyddedig yng Nghymru:	578

Priodasau yng Nghymru:

13,197 y flwyddyn

Gohiriwyd tua 10,420 o briodasau yn 2020

Mae 74% o fusnesau priodas yn dweud eu bod wedi colli rhwng 76% a 100% o'u trosiant ers y cyfyngiadau symud cyntaf.

Amcangyfrif o Nifer y Gweithwyr yn y Diwydiant Priodasau – Cymru²⁶:

2,580 o fusnesau

18,920 o weithwyr

11,825 o bobl ar y diwrnod + 7,095 mewn swyddogaethau cymorth gan gynnwys y gadwyn gyflenwi

Y gweithlu

Mae gweithluoedd y sectorau lletygarwch a thwristiaeth yn tueddu i gynnwys lefel anghymesur o bobl sydd wedi cael addysg is, pobl iau a phobl BAME, a'u bod yn cael cyflogau sylweddol is na chyfartaledd Cymru (canolrif) – mae llawer o'r rhain yn grwpiau sydd wedi profi'r effeithiau mwyaf niweidiol ar eu hiechyd, eu henillion, a'u potensial cyflogaeth o ganlyniad i ddirywiad economaidd.

²⁴ [Data GBTS a GBDVS mewn Proffiliau Rhanbarthol a Lleol 2017-2019](#)

²⁵ Arolwg Tasglu Priodasau'r DU o dros 3000 o fusnesau priodas 24 Rhagfyr 2020 – 12 Ionawr 2021

²⁶ Gwybodaeth am y diwydiant

Cadwyn gyflenwi / gwerth lletygarwch i economi Cymru a chadwyn gyflenwi ehangach twristiaeth a lletygarwch:

Yn 2018, cyfrannodd y sector gwasanaethau bwyd a diod £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru. Roedd hyn gyfwerth â 2% ac 1.2%, yn y drefn honno, o'r cyfanswm gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Er nad oes ystadegau ar gael ar lif nwyddau ym marchnad fewnol y DU, bydd manwerthwyr Cymru yn aml yn prynu cynnyrch a nwyddau a weithgynhyrchir yn uniongyrchol gan gwmnïau o Gymru. Felly, mae'n debygol y bydd manteision i'r gadwyn gyflenwi yn sgil caniatáu lefelau uwch o weithgarwch economaidd yn y sector – fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yr effaith honno.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol wedi'u nodi o ganlyniad i gyfyngiadau yn y maes hwn, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau o'r fath o ganlyniad i'r llacio arfaethedig.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar ddathlu digwyddiadau bywyd a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau rheoleiddiedig heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)	Cadarnhaol: Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli).	Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg drosglwyddo ar gyfer pob grŵp; cwsmeriaid a staff. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu

	unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd. <i>Negyddol:</i> Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu gydag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.		cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.
<i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'r boblogaeth anabl yng Nghymru yn cynrychioli cyfran ychydig uwch o'r gweithwyr yn y diwydiannau Twristiaeth a Lletygarwch ehangach nag ydynt yn y gweithlu'n gyffredinol, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws.	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cynrychiolaeth uwch o bobl anabl yn y sector hwn yng Nghymru – mae 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach).	Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Integredig. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol.

<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Negyddol: Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at leoliadau rheoleiddiedig yn cael eu defnyddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau.	Amherthnasol	Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Integredig.
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae'r boblogaeth BAME yn fwy tebygol o weithio ym maes Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws. <i>Negyddol:</i> Mae'n bosibl bod pobl	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 12% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli).	Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg drosglwyddo ar gyfer pob grŵp; cwsmeriaid a staff. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.

	BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal COVID-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.		
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailagor Mannau Addoli a'r Grŵp Seremonïau wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi rhoi cyngor ar y canllawiau ar gyfer seremonïau digwyddiadau bywyd megis angladdau, bedyddiau a bar mitzvahs.	Bydd caniatáu dathliad/derbyniad ar ôl seremoni digwyddiad bywyd yn caniatáu i'r teulu ac unigolion gael y digwyddiad yr oeddent wedi'i gynllunio, ond gyda chyfyngiadau.	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	<i>Cadarnhaol:</i> Mae cyfran y gweithwyr benywaidd yn y sector ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol.	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru.	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailagor Mannau Addoli wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi rhoi cyngor ar y canllawiau ar gyfer gweinyddu	Bydd caniatáu dathliad/derbyniad ar ôl priodas neu bartneriaeth sifil yn caniatáu i gyplau gael y diwrnod priodas yr oeddent wedi'i	Mae'r hawl i briodi yn Hawl Ddynol, ond drwy ganiatáu derbyniadau mewn rhai achosion ac nid mewn eraill, gallai hynny ymddangos fel

	priodasau a ffurfio partneriaeth sifil. Mae'r sector Lletygarwch, sy'n cynnwys grŵp rhanddeiliaid Lleoliadau Priodasau Cymru, hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi cyfrannu data a dadansoddiadau ar faint ac effaith ar y sector.	gynllunio, ond gyda chyfyngiadau.	pe bai seremonïau crefyddol a sifil yn cael eu trin yn wahanol.
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Negyddol: Gallai oedolion sy'n gweithio mewn lleoliadau, tafarndai, caffis a bwytaï fod â chyfrifoldebau gofal plant yn y sector. Mae'n bosibl y bu amhariad ar y mathau traddodiadol o ofal plant yn ystod y cyfyngiadau symud cyfredol.	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytaï blant o dan 16 oed.	Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant, gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle mae efallai angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio.
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Cadarnhaol: Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi a chynyddu incwm aelwydydd.	Mae data dros dro o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.

		gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru. Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 80% o weithwyr Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru.	
--	--	--	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)	<i>Cadarnhaol:</i> bydd caniatáu i leoliadau, tafarndai, caffis a bwytai ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith.	Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo.	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.

Mae Erthygl 12 yn diogelu hawl dynion a menywod o oedran priodi i briodi a dechrau teulu	Er bod cyplau wedi gallu priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ym mhob lleoliad sydd wedi'i gymeradwyo i gynnal seremoni, mae llawer wedi dewis gohirio hyd nes y gallant ddathlu'r achlysur gyda ffrindiau a theulu.	Bydd caniatáu derbyniadau/dathliadau yn caniatáu i gyplau gael y diwrnod yr oeddent wedi'i gynllunio, ond gyda chyfyngiadau.	Heb ganfod effeithiau negyddol penodol.
--	---	--	---

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae caniatáu derbyniadau priodas awyr agored yn cefnogi'r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae priodasau yn rhan o'r profiadau a'r cyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

Y Gymraeg

Mae 127,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 9% o'r gweithlu. Mae'r economi'n rhan annatod o greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd Cymraeg yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth a lletygarwch ar gyfer incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth a lletygarwch wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg; er enghraifft, mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg yn cael budd o'r ffaith bod busnesau lletygarwch yn gallu parhau i weithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

vi. Campfeydd a chyfleusterau o dan do

EFFEITHIAU AR LES

Ym mis Hydref 2020 cynhaliodd Chwaraeon Cymru ail arolwg o arferion chwaraeon a gweithgarwch corfforol pobl. Roedd y canlyniadau'n cynnwys y rhai nodedig canlynol o ran effaith y cyfyngiadau symud ar les corfforol a meddyliol.

- Mae'n ymddangos bod cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae mwy o bobl bellach yn gwneud ymarfer corff i reoli eu hiechyd meddwl a chorfforol. Roedd yr un ganran (62%) o bobl ag ym mis Mai

– pan gynhaliwyd yr arolwg cyntaf – yn gwneud ymarfer corff i gefnogi eu hiechyd meddwl.

- Mae effaith o hyd ar arferion ymarfer corff pobl ond nid mor ddifrifol ag yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae pobl bellach yn gwneud mwy o ymarfer corff i ffwrdd o'u cartref.
- Dangosodd yr arolwg fod lefelau gweithgarwch llawer o bobl wedi dychwelyd i'r un lefelau â chyn y pandemig. Fodd bynnag, mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch na chyn y pandemig, tra mae'n ymddangos bod dynion yn gwneud mwy. Mae 40% o fenywod yn anghytuno â'r datganiad bod ganddynt fwy o amser yn awr i wneud gweithgarwch corfforol.
- Ceir anghydraddoldebau tebyg rhwng statws economaidd-gymdeithasol, cyflyrau iechyd a salwch hirdymor, ac oedran. Er enghraifft, mae 22% o bobl sy'n dweud eu bod bellach yn gwneud ychydig mwy o ymarfer corff na chyn y pandemig yn y radd gymdeithasol uchaf, tra mae 20% o'r rhai sy'n dweud eu bod bellach yn gwneud llai o weithgarwch corfforol na chyn y pandemig yn y radd gymdeithasol isaf.
- Dywedodd rhwng 20 a 25% o bobl eu bod wedi ymweld â champfeydd o dan do, pyllau nofio a neuaddau chwaraeon. Fodd bynnag, o'r rhai a fynychodd sesiwn nofio neu gampfa o dan do yn yr wythnos cyn yr arolwg, roedd 80% yn teimlo'n gyfforddus, gan ddangos bod cyfleusterau'n rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i wneud i bobl deimlo'n ddiogel.

Mae teimladau cryf hefyd wedi bod ymhlith defnyddwyr a pherchnogion busnesau ynghylch gofynion parhaus i gau cyfleusterau chwaraeon o dan do. Ers dechrau'r pandemig, mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd hyd yma wedi cael 37 o ddeisebau yn gofyn am ailagor campfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd. Mae sawl un o'r deisebau hyn yn tynnu sylw at y rôl hanfodol y mae cyfleusterau o'r fath yn ei chwarae o ran lles corfforol a meddyliol. Cafwyd dadl ar lawr y Senedd yn gynharach eleni ynghylch mynediad at gyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfyngiadau symud.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Fel rhan o adroddiad gwerthuso economaidd a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru²⁷, amcangyfrifodd Canolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam effaith cyfnod o gyfyngiadau symud. Aethpwyd ati wedyn i fodelu hyn dros gyfnod o flwyddyn, gan gynnwys cyfnodau o normalrwydd, cyfyngiadau symud llawn, cyfyngiadau symud ar sail haenau, a chyfnodau eraill pan

²⁷ Kokolakis *et al*: The economic consequences of the COVID-19 pandemic on sport in Wales, Prifysgol Sheffield Hallam, Ionawr 2021

oedd yr economi yn gweithredu'n rhannol. Er mwyn amcangyfrif effaith economaidd chwaraeon yn 2019, ychydig cyn y pandemig pan dybiwyd bod amodau'n 'normal', cyfrifwyd cyfraddau cyfranogi mewn chwaraeon a phatrymau gwario. Awgrymodd yr amcangyfrif a ddeilliodd o hynny fod swm gwariant defnyddwyr yn parhau i gynyddu (7%) ychydig cyn y pandemig, fel y gwnaeth gwerth ychwanegol gros a swyddi (y ddau wedi cynyddu 5%). Ar y sail hon, amcangyfrifwyd bod gwariant defnyddwyr sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru yn £1.26bn, gwerth ychwanegol gros sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn £1.195bn a chyflogaeth ym maes chwaraeon yn 31,100 o staff cyfwerth ag amser llawn. Roedd hyn yn awgrymu bod y tueddiadau twf a welwyd dros yr 20 mlynedd blaenorol yn debygol o barhau yn 2019 a'r tu hwnt.

Mae'r holl fuddsoddiadau a arweiniodd at dwf yn y blynyddoedd diwethaf bellach o dan fygythiad oherwydd pandemig COVID-19. Mae canlyniad y model hwn yn awgrymu y gall cyfnod o gyfyngiadau symud llym leihau gwariant defnyddwyr (-47%), gwerth ychwanegol gros (-50%), a chyflogaeth (-48%). Golyga hyn y byddai effaith economaidd chwaraeon yn cael ei haneru, i bob pwrpas, yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud llym.

Pan fydd amodau'r cyfnodau hyn o gyfyngiadau symud wedi'u cyfuno â chyfnodau adfer dros gyfnod o flwyddyn (yn 2020), mae'r effaith net ar wariant defnyddwyr yn llawer mwy difrifol i'r sector chwaraeon yng Nghymru na gwariant defnyddwyr y DU yn gyffredinol (-24% a -15% yn y drefn honno). Felly, amcangyfrifir bod gwariant defnyddwyr ar chwaraeon yng Nghymru wedi gostwng tua £303.4m. Bu mwy o ostyngiad yng ngwariant defnyddwyr ar chwaraeon mewn rhai meysydd nag eraill; mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gweithgareddau chwaraeon anffurfiol fel rhedeg a beicio yn ystod y cyfyngiadau symud, a manwerthu ar-lein cysylltiedig (e.e. ffioedd derbyn yn gostwng 40% o gymharu â chynnydd o 16% mewn gwariant ar feiciau).

Yn 2020, disgwylir i economi'r DU fod wedi crebachu 10%. Ar yr un pryd, gwnaeth gwerth ychwanegol gros sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru leihau 20%, bron ddwywaith y gostyngiad yn y DU. Felly, amcangyfrifir bod gwerth ychwanegol gros yng Nghymru wedi lleihau £209m. Yng Nghymru, y gwerth ychwanegol gros a gynhyrchwyd drwy chwaraeon gyda gwylwyr wnaeth leihau fwyaf (-43%). Mae Ymddiriedolaethau Hamdden a Diwylliant Cymru yn parhau i wynebu colled net o £292,000 y mis tra mae eu cyfleusterau ar gau, gan wneud methdaliadau yn bosibilrwydd gwirioneddol.

Mae'n bwysig nodi y byddai'r amodau hyn wedi bod yn llawer gwaeth heb y buddsoddiad cychwynnol o £22.7 miliwn drwy becynnau cymorth chwaraeon, yn ogystal â phecynnau anuniongyrchol eraill fel cronfa galedi awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y gallai gwerth ychwanegol gros sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru fod wedi gostwng deirgwaith yn fwy nag economi'r DU heb fuddsoddiad. Byddai'r sector gwirfoddol yng Nghymru, er enghraifft, wedi gweld gostyngiad hyd yn oed yn fwy heb y cyfraniad hwn (-80% o gymharu â -50%). Yn ogystal, byddai 15.2 mil o swyddi chwaraeon cyfwerth ag amser llawn wedi bod mewn perygl o gael eu colli heb gymorth cyhoeddus. Gyda diwedd y pecyn adfer ym mis Mawrth, mae'r pryderon hyn yn codi unwaith eto.

Mae chwaraeon yn ddiwydiant economaidd sylweddol i Gymru. Mae'r rhwydwaith o ficrofusnesau sy'n gyrru'r economi chwaraeon wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau. Maent yn ychwanegu gwerth gwirioneddol o ran eu gallu i gefnogi cyflogaeth yn uniongyrchol yn ogystal â sut y maent yn gwasanaethu diwydiannau cysylltiedig. Cyn y pandemig roedd twf cyson yn nylanwad chwaraeon ar yr allbwn economaidd yng Nghymru. Er bod hyn wedi'i daro'n ddramatig, mae yna ddulliau polisi a all ddychwelyd yr hwb economaidd hwn i'r sector mewn modd synhwyrol, diogel a chynaliadwy. Byddai llacio'r cyfyngiadau ar gampfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd (gan gynnwys canolfannau cymunedol) yn gam pwysig yn hyn o beth.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Fel gyda'r rhan fwyaf o'r camau llacio eraill, bydd dileu cyfyngiadau yn y maes hwn bron yn sicr yn cynyddu'r rhesymau i'r cyhoedd deithio. Er bod teithio wedi gostwng yn sylweddol pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, mae data symudedd yn awgrymu ei fod wedi cynyddu'n raddol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi (er bod y data, ar gyfer y rhan fwyaf o fetrigau, yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y cyfyngiadau symud).²⁸

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau cyhoeddus heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

²⁸ Data o Fonitor Data COVID-19 Llywodraeth Cymru (27/07/2020). [DATA AT DDEFNYDD MEWNOL YN UNIG](#)

<i>Grŵp neu nodwedd warchodedig</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</i>
<i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU drwy gyfnod y Coronafeirws. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd.	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 31% o weithwyr yn y sector gweithgareddau chwaraeon yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli).	Amherthnasol
<i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod pobl anabl yn cynrychioli 15% o'r gweithwyr yn y sector gweithgareddau chwaraeon (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach).	

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 8% o weithwyr yn y sector gweithgareddau chwaraeon yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli).	
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 42% o weithwyr yn y sector gweithgareddau chwaraeon yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru.	
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?
<i>Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod ailagor campfeydd a chyfleusterau hamdden a ffitrwydd yn gadarnhaol i bawb; gan ei fod yn hyrwyddo ymarfer corff a thrwy hynny'n hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y Confensiwn wrth gynnal yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar weithgareddau awyr agored wrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau

Y Gymraeg

Ni chredir y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**.

vii. Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu

EFFEITHIAU AR LES

Mae nifer o astudiaethau ynghylch Cymru ac yn rhyngwladol yn dangos bod y coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith barhaol ar les pobl²⁹. Mae'n gwaethygu teimladau pobl o bryder, unigrwydd ac anhapusrwydd. Mae hyn yn aml yn deillio o'r diffyg cysylltiad â'u cyfoedion.

Mae What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol wella lles pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un lle. Gall y cyfyngiadau ar gyfer unigolion o dan gyfyngiadau Lefel 4 amharu ar fanteision cymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant gyda'i gilydd.

Mae gweithgareddau wedi'u trefnu, ac yn enwedig chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd. Maent hefyd yn helpu i sicrhau cenedl iach ac egnïol, ac yn rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd portffolio trawslywodraethol. Mae tystiolaeth wyddonol dda yn dangos bod ffordd o fyw egnïol yn gallu ein helpu i fyw bywydau iachach a hapusach. Gall ymarfer corff rheolaidd ostwng y risg o nifer o gyflyrau cronig, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes math 2, dementia, rhai mathau o ganser, gordewdra, problemau iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerbydol.

Dangosodd canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ac a gynhaliwyd gan Savanta ComRes ym mis Mai a mis Hydref 2020 fod pobl yn gyffredinol yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ar hyn o bryd.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn darparu enillion helaeth ar fuddsoddiad, o ran y manteision a geir yn sgil ffordd iach ac egnïol o fyw. Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd yn yr awyr agored yn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau

²⁹ Gweler, er enghraifft: https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

cymdeithasol, yn lleihau lefelau salwch, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn cyfrannu at Gymru wyrddach drwy deithio llesol.

Mae manteision chwaraeon ac ymarfer corff yn aml-ddimensiwn. Yn 2019, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru Adroddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Roedd y dadansoddiad, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, yn mesur cyfraniad ehangach chwaraeon yng Nghymru. Yn benodol, canfu'r adroddiad y canlynol:

- Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru, mae £2.88 yn cael ei adennill.
- Gwireddwyd gwerth £3,428m o fuddion ar gyfer cymunedau Cymru o ganlyniad i gymryd rhan a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn 2016/17.
- Mae dadansoddiad o'r ffigur cyffredinol yn dangos bod gwerth cymdeithasol cyfalaf cymdeithasol uwch yn £651.47m; gwell addysg yn £91.15m; a lleihau trosedd yn £2.17m. Mae'r gwerth cymdeithasol o ran gwell iechyd yn £295.17m.
- Mae llesiant goddrychol yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir yng Nghymru (60.6%).
- Tyfodd y diwydiant chwaraeon yng Nghymru 10% yn 2016/17, i £1,142m. Canfuwyd bod y sector chwaraeon yn perfformio'n well na'r diwydiannau fferyllol, teithio, llety a thecstilau yng Nghymru.
- Fe wnaeth yr economi chwaraeon gyfrannu £1,182m yn sgil Gwariant Defnyddwyr ar Chwaraeon a chreu 29,700 o swyddi cysylltiedig â chwaraeon yn ystod yr un flwyddyn.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Fel gyda'r rhan fwyaf o'r camau llacio eraill, bydd dileu cyfyngiadau yn y maes hwn bron yn sicr yn cynyddu'r rhesymau i'r cyhoedd deithio. Er bod teithio wedi gostwng yn sylweddol pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, mae data symudedd yn awgrymu ei fod wedi cynyddu'n raddol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi (er bod y data, ar gyfer y rhan fwyaf o fetrigau, yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y cyfyngiadau symud).³⁰

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau cyhoeddus heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran</i>	<i>Cadarnhaol:</i> mae	Mae'r risg o	Amherthnasol

³⁰ Data o Fonitor Data COVID-19 Llywodraeth Cymru (27/07/2020). **DATA AT DDEFNYDD MEWNOL YN UNIG**

<i>(meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	mynediad at weithgareddau wedi'u trefnu yn cael effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol ar gyfer pob oedran. Mae gweithgareddau wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed wedi bod yn cael eu cynnal ers peth amser ac eisoes wedi cael effaith gadarnhaol. Bydd pob oedran yn elwa ar y newid hwn, ond yn enwedig unigolion hŷn sydd wedi ymddeol, nad yw rhai ohonynt ond yn dod i gysylltiad ag eraill drwy weithgareddau fel dosbarthiadau nofio, a chenedlaethau iau drwy weithgareddau fel HIT.	ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu gydag oedran, ond gellir lliniaru'r rhain ar y cyfan drwy gadw pellter cymdeithasol, a chynnal hylendid dwylo da.	
<i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<i>Niwtral:</i> Ar y cyfan, dylai pobl anabl allu manteisio ar yr un cyfleoedd â phobl eraill i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau awyr agored wedi'u trefnu. Fodd bynnag, o ran gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i grwpiau, mae'n bosibl y byddant yn elwa i raddau mwy ar weithgareddau grŵp arbenigol lle mae darparwyr yn gallu ailddechrau gweithgareddau o'r fath yn unol â	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	<i>Amherthnasol</i>

	gofynion diogel o ran COVID.		
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol sylweddol. Fodd bynnag, mae rhai unigolion yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn hyfforddi mewn grwpiau / gweithgareddau wedi'u trefnu yn hytrach nag ar ben eu hunain.	Dim digon o ddata ar gael i lunio asesiad iawn ond ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol sylweddol, ond gallai fod yn fwy diogel i fenywod beichiog hyfforddi o dan oruchwyliaeth arbenigol yn hytrach nag ar ben eu hunain.	Dim digon o ddata ar gael i lunio asesiad iawn ond ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb;	Amherthnasol

<i>a ffoaduriaid)</i>		oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Potensial i ddynion elwa'n fwy gan fod ganddynt lefelau cyfranogi uwch mewn chwaraeon ac o ran mynychu cyfleusterau hamdden. Fodd bynnag, mae llawer o fenywod wedi nodi eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn gweithgareddau grŵp yn hytrach nag ar ben eu hunain felly buddion sylweddol.	Lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel. Bydd hefyd yn gwella ac yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol drwy wneud mwy o weithgarwch.	Amherthnasol
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth	Amherthnasol

		cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Roedd gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed ac oedolion eisoed yn cael eu caniatáu. Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed i gael eu caniatáu o'r un adeg (03 Mai).	Roedd gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed ac oedolion eisoed yn cael eu caniatáu. Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu i bobl ifanc o dan 18 oed i gael eu caniatáu o'r un adeg (03 Mai).	Amherthnasol
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r lefelau net o weithgarwch corfforol wedi newid yn sylweddol yng Nghymru, ond mae effaith wahaniaethol	Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020: "There are however significant variations within certain demographic groups.	Amherthnasol

	yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol ymysg oedolion a phlant. Mae'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol uwch yn cymryd rhan mewn mwy o ymarfer corff nag yr oeddent cyn yr argyfwng, ac mae'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol tlotach yn cymryd rhan mewn llai. Bydd ailalluogi gweithgarwch yn y maes hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i'r rhai o gefndir economaidd-gymdeithasol is gymryd rhan mewn ymarfer corff.	There is a net increase in activity levels amongst those from higher socioeconomic backgrounds (+7 percentage points), however there is a net decrease amongst those from lower socioeconomic backgrounds (-4 percentage points)." "Those from lower socio economic backgrounds appear to be experiencing the greatest reductions (LOW SES: More 23% Less 36% = -13 percentage points HIGH SES: More 28% Less 35% = -7 percentage points)"	
--	---	--	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb;	Amherthnasol

gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)		oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	
--	--	--	--

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y Confensiwn wrth gynnal yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar weithgareddau awyr agored wrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau

Y Gymraeg

Ni chredir y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**.

viii. Gweithgareddau o dan do wedi'u trefnu i blant

EFFEITHIAU AR LES

Mae nifer o astudiaethau ynghylch Cymru ac yn rhyngwladol yn dangos bod y coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith barhaol ar les plant a phobl ifanc³¹. Mae'n gwaethygu teimladau plant a phobl ifanc o bryder, unigrwydd ac anhapusrwydd. Mae hyn yn aml yn deillio o'r diffyg cysylltiad â'u cyfoedion.

Mae What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol wella lles pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un lle³². Gall y cyfyngiadau ar gyfer

³¹ Gweler, er enghraifft: <https://www.sussex.ac.uk/about/documents/play-first--supporting-childrens-social-and-emotional-wellbeing-during-and-after-lockdown.pdf>

³² https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

unigolion o dan gyfyngiadau Lefel 4 amharu ar fanteision cymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant gyda'i gilydd.

Mae gweithgareddau wedi'u trefnu i blant, ac yn enwedig chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd. Maent hefyd yn helpu i sicrhau cenedl iach ac egnïol, ac yn rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd portffolio trawslywodraethol. Mae tystiolaeth wyddonol dda yn dangos bod ffordd o fyw egnïol yn gallu ein helpu i fyw bywydau iachach a hapusach. Gall ymarfer corff rheolaidd ostwng y risg o nifer o gyflyrau cronig, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes math 2, dementia, rhai mathau o ganser, gordewdra, problemau iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerbydol.

Dangosodd canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ac a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020 fod plant yn gyffredinol yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ar hyn o bryd (gostyngiad net o 9 pwynt canran) a bod y gostyngiad mwyaf ymysg plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is (-13 pwynt canran o gymharu â -7 pwynt canran ymysg plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uchel).

Er bod rhai sefydliadau gwaith ieuenctid yn cynnig gweithgareddau chwaraeon, mae llawer yn canolbwyntio ar feysydd eraill i gefnogi datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol pobl ifanc i'w galluogi i feithrin cadernid. Mae'r agweddau hyn yn hollbwysig er mwyn helpu i wrthweithio teimladau o ynysigrwydd ac unigrwydd.

O ran plant iau, gan gynnwys y rhai a anwyd yn ystod y pandemig, nid ydynt wedi cael fawr ddim cyfle i ryngweithio â babanod a phlant bach eraill – gallai hyn gael effeithiau hirdymor a niweidiol. Gallai'r effaith ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol fod yn sylweddol yn ogystal â'r effaith ar y rhiant a allai fod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth a chefnogaeth. Mae angen i blant ifanc a'u rhieni (y fam fel arfer) gymdeithasu oherwydd ei fod yn dda iddyn nhw – mae'n helpu gyda datblygiad y plentyn ac iechyd meddwl a lles y rhiant. Mae gan grwpiau rhieni a phlant bach rôl bwysig i'w chwarae – gallant helpu i arwain rhieni i'r cyfeiriad cywir ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau a chymorth arall os oes angen.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae gweithgareddau wedi'u trefnu i blant yn cael eu cynnal gan sefydliadau amrywiol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae llawer ohonynt yn rhedeg ar sail nid-er-elw, er y bydd rhai lleoliadau mwy o faint sy'n cyflogi staff. Byddai ailddechrau'r gweithgareddau hyn yn caniatáu i'r staff hynny ddychwelyd i'r gwaith a dod oddi ar gynlluniau fel ffyrlo, nad ydynt ond yn talu cyfran o'u cyflog.

Mae manteision chwaraeon ac ymarfer corff yn aml-ddimensiwn. Yn 2019, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru Adroddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Roedd y dadansoddiad, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, yn mesur cyfraniad ehangach chwaraeon yng Nghymru. Yn ogystal â'r buddion economaidd sy'n deillio o

weithgareddau chwaraeon proffesiynol (nad ydynt yn ailagor fel rhan o'r adolygiad hwn), canfuwyd bod chwaraeon yn cael effaith gadarnhaol ar amryw o ffactorau cymdeithasol ac iechyd, gan greu cyfalaf cymdeithasol a lleddfu'r pwysau ar wasanaethau barnwrol ac iechyd y cyhoedd. Yn benodol, canfu'r adroddiad y canlynol:

- Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru, mae £2.88 yn cael ei adennill.
- Gwireddwyd gwerth £3,428m o fuddion ar gyfer cymunedau Cymru o ganlyniad i gymryd rhan a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn 2016/17.
- Mae dadansoddiad o'r ffigur cyffredinol yn dangos bod gwerth cymdeithasol cyfalaf cymdeithasol uwch yn £651.47m; gwell addysg yn £91.15m; a lleihau trosedd yn £2.17m. Mae'r gwerth cymdeithasol o ran gwell iechyd yn £295.17m.
- Mae llesiant goddrychol yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir yng Nghymru (60.6%).
- Tyfodd y diwydiant chwaraeon yng Nghymru 10% yn 2016/17, i £1,142m. Canfuwyd bod y sector chwaraeon yn perfformio'n well na'r diwydiannau fferyllol, teithio, llety a thecstilau yng Nghymru.
- Fe wnaeth yr economi chwaraeon gyfrannu £1,182m yn sgil Gwariant Defnyddwyr ar Chwaraeon a chreu 29,700 o swyddi cysylltiedig â chwaraeon yn ystod yr un flwyddyn.

Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn darparu enillion helaeth ar fuddsoddiad, o ran y manteision a geir yn sgil ffordd iach ac egnïol o fyw. Mae plant sy'n chwarae a phobl sy'n gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn yr awyr agored yn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn lleihau lefelau salwch, ac yn cynyddu cynhyrchiant. Mae chwaraeon ac ymarfer corff awyr agored yn y gymuned leol yn cyfrannu at Gymru wyrddach.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'r effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol o dan do yn debygol o fod yn isel iawn, o ystyried nad yw'r rhan fwyaf o weithgareddau'n gysylltiedig â thechnoleg sy'n creu allyriadau. Bydd cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n lleol yn bennaf, ac ni ddisgwylir unrhyw gynnydd sylweddol mewn allyriadau yn sgil teithio i ddefnyddio cyfleusterau.

Yn yr un modd ag ailddechrau gweithgarwch mewn sectorau eraill, gallai llacio cyfyngiadau, mewn theori, roi mwy o reswm i bobl ddefnyddio trafnidiaeth breifat, ond nid yw'n hysbys eto a fydd hyn yn cael effaith arwyddocaol ar yr allyriadau cyfwerth â CO₂, nac ar ansawdd yr aer.

Gallai cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored hefyd gael effaith gadarnhaol ar agweddau neu safbwyntiau pobl ynghylch nwyddau amgylcheddol cyhoeddus. Gallai hyn helpu i atgyfnerthu manteision mesurau diogelu'r amgylchedd wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio dros amser.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hybu cydraddoldeb gan ei fod yn dileu cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau cyhoeddus heb ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â mynediad cyfartal.

<i>Grŵp neu nodwedd warchodedig</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</i>
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	<i>Cadarnhaol:</i> mae mynediad at weithgareddau wedi'u trefnu yn cael effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol. I ddechrau, mae'r mesur llacio hwn yn ymwneud â gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant, gan gynnwys pob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed. I'n plant ieuengaf (dan 3 oed) bydd cymysgu â phlant o oedran tebyg yn cael effaith gadarnhaol ar gymdeithasu.	Mae'r risg o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu gydag oedran, ond gellir lliniaru'r rhain ar y cyfan drwy fod yn yr awyr agored yng ngoleuni'r haul, cadw pellter cymdeithasol, a hylendid dwylo da.	Amherthnasol
<i>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	Niwtral: ar y cyfan, dylai pobl anabl allu manteisio ar yr un cyfleoedd â phobl eraill i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau awyr agored. Fodd bynnag, o ran gweithgareddau grŵp wedi'u trefnu yn	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio	Amherthnasol

	yr awyr agored, mae'n bosibl y byddant yn elwa i raddau mwy ar weithgareddau grŵp arbenigol lle mae darparwyr yn gallu ailddechrau gweithgareddau o'r fath yn unol â gofynion diogel o ran COVID.	cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Dim digon o ddata ar gael i lunio asesiad iawn ond ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a	Amherthnasol

		chorfforol.	
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Potensial i fechgyn a dynion ifanc elwa mwy gan fod eu lefelau cyfranogi mewn chwaraeon yn uwch. Potensial i famau elwa mwy na thadau gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy tebygol o fynychu grwpiau rhieni a	Lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio diogel a chymdeithasol. Bydd hefyd yn gwella ac yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol wrth i bobl ymgymryd â mwy o weithgarwch.	Amherthnasol

	babanod/plant bach.		
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Amherthnasol	Amherthnasol
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Bydd mynediad at weithgareddau wedi'u trefnu yn gwella iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran cyfathrebu a chymdeithasu. Mae ymarfer corff a chwaraeon yn ffactor bwysig o ran cyfrannu at ddatblygiad corfforol a chymdeithasol iach plant. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant yng Nghymru yn gwneud llai o ymarfer corff nawr nag yr oeddent cyn y	Mae hawliau plant wedi cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn (gweler uchod); a bydd y mesurau sy'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau grŵp wedi'u trefnu (e.e. dosbarthiadau dawn), yn gadarnhaol i blant ac maent yn hybu cydymffurfiaeth ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (rhestr)	Amherthnasol

	pandemig. Bydd gweithgarwch ailalluogi yn y maes hwn yn ehangu'r cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn ymarfer corff (er bod merched yn eu harddegau yn tueddu i fod â chyfraddau cyfranogi is mewn chwaraeon, felly gallent elwa llai)		
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r lefelau net o weithgarwch corfforol wedi newid yn sylweddol yng Nghymru, ond mae effaith wahaniaethol yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol ymysg oedolion a phlant. Mae'r rheini o gefndir economaidd-gymdeithasol uwch yn cymryd rhan mewn rhagor o ymarfer corff nag yr oeddent cyn yr argyfwng, ac mae'r rheini o gefndir economaidd-gymdeithasol tlodach yn cymryd rhan mewn llai. Bydd ailalluogi gweithgareddau yn y maes hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i'r rheini o gefndir economaidd-gymdeithasol is gymryd rhan mewn ymarfer corff.	Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020: "There are however significant variations within certain demographic groups. There is a net increase in activity levels amongst those from higher socioeconomic backgrounds (+7 percentage points), however there is a net decrease amongst those from lower socioeconomic backgrounds (-4 percentage points)." "Those from lower socio economic backgrounds appear to be experiencing the greatest reductions (LOW SES: More 23% Less 36% = -13 percentage points HIGH SES: More 28% Less 35% = -7	

		percentage points)"	
--	--	---------------------	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei chyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Ar wahân i'r cyfyngiadau parhaus yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

<i>Hawliau Dynol</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i>
Yr hawl i fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (e.e. yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gysylltiad rheolaidd)	Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol.	Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig; a hyrwyddo gwell lles meddyliol a chorfforol.	Amherthnasol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y Confensiwn wrth gynnal yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar weithgareddau awyr agored wrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau

Byddai llacio'r cyfyngiadau presennol ar feysydd chwarae a gweithgareddau grŵp yn yr awyr agored yn galluogi Llywodraeth Cymru i fodloni nifer o'i rhwymedigaethau yng nghyswllt yr hawliau plant a nodir uchod. Bydd caniatáu i blant o fwy nag un aelwyd wneud ymarfer corff gyda'i gilydd yn ein galluogi i fodloni ein rhwymedigaethau o dan Erthygl 15. Byddai codi'r cyfyngiadau ar feysydd chwarae a gweithgareddau grŵp yn yr awyr agored yn ein galluogi i fodloni ein rhwymedigaethau o dan Erthygl 31.

Y Gymraeg

Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol o bwys ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal ac i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**, yn pwysleisio pa mor bwysig yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n gallu ei siarad. Mae ail thema Cymraeg 2050, sef **Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg**, yn nodi: *"Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar lefel y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd"*.